
Siart Wybodaeth i Rieni/Gwarchodwyr
Beth i'w wneud pan mae *fy mhlentyn* neu os *ydw i* fel rhiant/gwarchodwr yn sâl yn ystod cyfnod COVID-19?
SYMPTOMAU COVID-19
• Peswch parhaus (h.y peswch am dros awr/ 3 neu fwy o byliau o beswch mewn 24 awr)
• Tymheredd o 37.8˚C neu uwch
• Methu blasu'n iawn
• Methu arogli'n iawn
PEIDIWCH ag anfon eich plentyn (nac unrhyw blentyn arall yn eich teulu) i'r ysgol os yw'n dangos unrhyw un o'r symptomau COVID-19
PEIDIWCH ag anfon eich plentyn (nac unrhyw blentyn arall yn eich teulu) i'r ysgol os oes gan aelod o'ch cartref symptomau COVID-19
Os yw eich plentyn yn dangos unrhyw un o'r symptomau hyn, ffoniwch yr ysgol/feithrinfa i nodi ei fod yn anhwylus
A yw fy mhlentyn yn gallu mynd i'r ysgol os yw wedi bod mewn cysylltiad â rhywun *nad ydyn nhw'n byw gyda nhw* ond sydd â symptomau COVID-19?
All fy mhlentyn i fynd i'r ysgol gydag annwyd?
Os nad oes gan eich plentyn symptomau COVID-19 ond mae ganddo symptomau eraill tebyg i annwyd megis trwyn yn rhedeg, nid oes angen iddo gael prawf ac nid oes angen iddo, na chithau, hunanynysu. Gall eich plentyn fynd i'r ysgol os yw'n ddigon iach i wneud hynny.
Beth sy'n digwydd nesaf?
Bydd yr ysgol yn trafod y camau nesaf gyda chi dros y ffôn ond mae'n rhaid i bob aelod o'r tŷ hunanynysu nes eu bod yn derbyn prawf negyddol neu mewn achos bositif bydd angen hunan-ynysu am 14 diwrnod
Os yw plentyn wedi bod mewn "cysylltiad" â rhywun nad ydyn nhw'n byw gyda nhw sydd â symptomau, dylai fynd ymlaen fel arfer hyd nes bod yr unigolyn hwnnw'n derbyn canlyniad ei brawf. Os yw hwn yn bositif, bydd y tîm Profi, Olrhain, Diogelu yn cysylltu â phobl a nodwyd fel cysylltiadau.
Cyn i blentyn ddychwelyd i'r ysgol bydd angen cyflwyno tystiolaeth o brawf negyddol i'r pennaeth